Nodyn briffio Cyfarfod Bwrdd Rheoleiddiol Cymru

Diolch i Pobl am gynnal cyfarfod ein Bwrdd Rheoleiddiol yn Abertawe. Mae ein penderfyniad i fynd 'ar daith' fel Bwrdd wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Mae'n gyfle da i godi ein proffil fel Bwrdd yn ogystal â chlywed am yr holl waith cyffrous sy'n cael ei wneud a rhai o'r heriau sy'n codi yn y sector.

Mae Iechyd a Diogelwch ar frig ein hagenda o hyd. Mae'n hollbwysig ei fod yn aros ar frig agenda eich Bwrdd chi a bod gennych, fel Aelodau Bwrdd, ddealltwriaeth drylwyr o'r fframweithiau sicrwydd sydd ar waith gennych a hyder ynddynt. Rwyf bob amser wedi credu mai rhan o'r gwerth yr wyf yn ei gyflwyno i rôl Cadeirydd Bwrdd Rheoleiddiol Cymru yw fy mhrofiad ymarferol o fod yn Gadeirydd cymdeithas dai. Mae'r gwersi mwyaf gwerthfawr yr wyf wedi'u dysgu dros y blynyddoedd wedi digwydd pan nad oedd pethau'n mynd yn dda. Gweithio drwy'r problemau yr wyf wedi'u hwynebu'n ddiweddar yn Ymddiriedolaeth Tai Knowsley, pan roeddem yn credu fel Bwrdd fod gennym sicrwydd ynghylch ein cydymffurfiaeth reoleiddiol â materion iechyd a diogelwch, dim ond i ddarganfod nad oedd hynny'n wir, fu'r her anoddaf imi ei hwynebu erioed. Rwyf wedi ymrwymo i rannu'r gwersi yr wyf wedi'u dysgu o'r profiad hwn ac rwyf wrthi'n trafod y ffordd orau o wneud hyn gyda Cartrefi Cymunedol Cymru.

Roedd y Bwrdd yn falch o weld y tîm Rheoleiddio yn cymryd camau rhagweithiol i holi'r holl gymdeithasau am eu cydymffurfiaeth â gofynion iechyd a diogelwch. Fodd bynnag, roeddem am sicrhau ei bod hi'n glir i bawb na ddylid ystyried bod hyn yn golygu bod cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo i'r Rheoleiddiwr. Mae pob Bwrdd unigol yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion iechyd a diogelwch. Rydym yn gwerthfawrogi bod yr amserlen i gyflwyno'r adroddiad wedi peri her i rai ac rydym yn cydnabod cymorth y sector i symud y gwaith hwn yn ei flaen.

Hoffwn hefyd atgoffa Byrddau o bwysigrwydd rhoi gwybod i'r Rheoleiddiwr am faterion sy'n peri pryder ar gam cynnar. Mae hyn yn rhan bwysig o'r model cyd-reoleiddio ac yn galluogi'r tîm rheoleiddio i weithio gyda chymdeithasau er mwyn datrys materion. Os rhoddir gwybod am faterion ar ôl iddynt ddigwydd, efallai na fydd cymorth yn opsiwn.

Gwnaethom dreulio amser yn meddwl am ddyfodol rheoleiddio tai yng Nghymru. Mae hyn wedi arwain at rai syniadau newydd. Rydym yn bwriadu cynnal cyfarfod ar y cyd rhwng Bwrdd Cartrefi Cymunedol Cymru a Bwrdd Rheoleiddiol Cymru er mwyn dechrau sgwrs am y ffordd orau o ddatblygu'r syniadau hyn gan sicrhau bod y sector yn cael ei gynnwys o'r dechrau. Rydym hefyd am ddeall mwy am farn Byrddau am y trefniadau presennol.

Rydym yn parhau â'n gwaith i gwmpasu ein hadolygiad thematig nesaf ar sut y gall tenantiaid lywio'r gwasanaethau a gânt a dylanwadu arnynt. Rydym yn sefydlu grŵp llywio a bydd y gwaith hwn yn mynd rhagddo dros y misoedd nesaf.

Roedd hi hefyd yn braf clywed ar ddiwrnod ein cyfarfod bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi cyhoeddi y byddai cymdeithasau tai yng Nghymru yn cael eu tynnu o fantolen y sector cyhoeddus. Er mai mater technegol oedd hwn, pe na fyddai'r penderfyniad hwn wedi cael ei wneud, byddai'r canlyniadau wedi bod yn ddifrifol iawn i'r sector.  Gwnaethom gydnabod y gwaith sylweddol y mae cydweithwyr yn y Tîm Rheoleiddio wedi'i wneud mewn perthynas â'r mater hwn a diolch iddynt am eu gwaith caled.

Ymunodd y Gweinidog â ni ar gyfer sesiwn olaf y diwrnod a chawsom drafodaeth dda ar y prif gyfleoedd, heriau a risgiau sy'n wynebu'r sector. Roedd hi'n dda clywed y Gweinidog yn ailddatgan ei chefnogaeth i'r sector nid yn unig o ran darparu cartrefi fforddiadwy o ansawdd da ond hefyd o ran sicrhau gwaith adfywio ehangach a chanlyniadau gwell i gymunedau yng Nghymru.

Croesawodd Bwrdd Rheoleiddiol Cymru lansiad Cod Llywodraethu newydd Cartrefi Cymunedol Cymru. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y Cod fel cyfres o egwyddorion ac arferion a argymhellir i gefnogi trefniadau llywodraethu effeithiol a chydymffurfiaeth reoleiddiol. Dylid gweld y newid i ganolbwyntio ar ddiwylliant sefydliad yn hytrach na phrosesau fel cam cadarnhaol ymlaen, gan gydnabod bod pob Cymdeithas yn gyfrifol am lunio trefniadau llywodraethu priodol a chadarn. Gobeithio y bydd hyn yn ysgogi Byrddau i feddwl yn galed iawn am hanfodion llywodraethu da ar gyfer eu sefydliad. Rhaid i bob Bwrdd fodloni ei hun y gall ddangos yn glir i'r Rheoleiddiwr ei fod yn cydymffurfio â'r Cod newydd. Dylai'r angen i aelodau Bwrdd drafod egwyddorion ac arferion a argymhellir y Cod ysgogi llawer o drafod a dadlau yn ystod cyfarfodydd Bwrdd.

Yn olaf, rydym yn awyddus fel Bwrdd i ymgysylltu hyd yn oed yn fwy â'r sector. Byddem yn croesawu unrhyw gyfleoedd i gyfarfod ag aelodau Bwrdd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, felly mae croeso i chi gysylltu â mi os hoffech i mi, neu gynrychiolydd o Fwrdd Rheoleiddiol Cymru, gyfarfod â'ch Bwrdd neu fynd i unrhyw ddigwyddiadau sy'n berthnasol, yn eich barn chi.



Helen White (Cadeirydd)
Bwrdd Rheoleiddiol Cymru